BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

**Datganiad Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 13(5) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.**

Ar 30 Mawrth 2020, gwnaeth Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Bwrdd) benderfyniad sy’n gwneud darapariaethau o dan adrannau 20(01) a 53(01) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Penderfyniad y Bwrdd, sy’n cael i gymhwyso yn lle paragraff 3.2.1 o’r Penderfyniad ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau, yw:

> *Bydd tâl yr Aelodau a deiliaid swyddi yn cael ei addasu +4.4 y cant ym mis Hydref 2020, ac eto wedyn ym mis Ebrill bob blwyddyn, yn ôl y newid yn yr ASHE (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion), Enillion Canolrif blynyddol gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru, rhwng mis Mawrth y flwyddyn honno a mis Mawrth y flwyddyn flaenorol.*

Mae hyn yn disodli’r ddarpariaeth bresennol sydd wedi bod ar waith yn ystod y Pumed Cynulliad, sef bod tâl yr Aelodau a deiliaid swyddi’n cael ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn ôl y newid yn yr ASHE. Eleni, byddai’r newid yn yr ASHE yn arwain at gynnydd o 4.4. y cant yn eu tâl.

O dan amgylchiadau arferol, ni chaiff y Bwrdd wneud mwy nag un penderfyniad yn ymwneud â chyflogau’r Aelodau a fydd yn dod i rym yn ystod pob un o dymhorau’r Cynulliad (fel yr amlinellir yn adran 13(3) o Fesur Taliadau (Cymru) 2010). Mae’r cyfyngiad hwnnw hefyd yn gymwys i benderfyniad sy’n darparu ar gyfer talu cyflogau’r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru.

Mae’r Bwrdd yn cydnabod bod hwn yn ail benderfyniad a fydd yn dod i rym yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Mae’r Bwrdd o’r farn ein bod mewn amgylchiadau eithriadol sy’n ei gwneud yn deg ac yn rhesymol i’r cyfyngiadau a osodir gan adran 13(3) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (Mesur 2010) beidio â bod yn gymwys.

Mae’r Bwrdd wedi ystyried y sefyllfa hynod anarferol, na welwyd ei thebyg o’r blaen, sydd wedi codi oherwydd pandemig Covid-19 ac mae o’r farn bod y sefyllfa’n gyfystyr ag amgylchiadau eithriadol sy’n ei gwneud yn deg ac yn rhesymol newid y Penderfyniad ar gyfer 2020-21.

Yn benodol, mae’r Bwrdd wedi cadw at yr egwyddorion a ganlyn drwy gydol ei drafodaethau:

- dylai’r cymorth ariannol a’r taliadau i Aelodau hybu diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith ei Aelodau;
- rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;

- rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy a dylent sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod y rôl bwysig y mae'r Aelodau'n ymgymryd â hi wrth iddynt gynrychioli eu hetholwyr, a'u hymrwymiad i gyflawni'u dyletswyddau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Ar yr un pryd, roedd yn rhaid i'r Bwrdd ystyried effaith economaidd sylweddol a niweidiol pandemig Covid-19 yng Nghymru. Bydd yr amgylchiadau presennol wedi cael effaith niweidiol ar nifer o weithwyr yng Nghymru, naill ai oherwydd eu bod wedi colli'u gwaith neu oherwydd eu bod yn cael llai o gyflog. Ni wyddom eto beth fydd yr effaith economaidd lawn ar enillion yng Nghymru, ond mae'r Bwrdd yn cydnabod, fodd bynnag, fod y darlun economaidd wedi newid yn llwyr ers cyhoeddi addasiad diwethaf yr ASHE.

Mae'r Bwrdd yn credu y byddai caniatáu i gyflogau gynyddu'n unol â'r mynegai, o dan y fath amgylchiadau, yn mynd yn groes i'w egwyddor bod yn rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.  Mae hefyd o'r farn bod yr egwyddor hon yn bwysig er mwyn cynnal hyder y cyhoedd ar adeg pan mae'r genedl yn wynebu problemau na welwyd eu tebyg o'r blaen. Mae'r Bwrdd yn bwriadu adolygu'r mater hwn cyn mis Hydref 2020 i asesu a fyddai'n briodol cymhwyso'r addasiad bryd hynny.

Mae'r datganiad hwn yn cyfateb i ddatganiad ysgrifenedig i Gomisiwn y Cynulliad at ddibenion adran 13(5) o Fesur 2010.